# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd:** Dewi Ll Evans

**Pwyllgor Blynyddol nos Lun Mai 9fed 2022**

## Cofnodion

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd Dewi Evans
2. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts a'r Cyng. Sirol Gwennol Ellis.
3. **Cofnodion Blynyddol 2021-22:** Cynigwyd yn gywir gan GJ gydag ER yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau – Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.
   Polisi Cydraddoldeb:
   i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
   ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn i gysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
   iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
   iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Angen eglurhad sut oedd ethol a chyfethol aelod newydd ar y Cyngor yn enwedig enwebu merch.
6. **Mantolen Ariannol 2021-22** – Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
   i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael popeth mewn trefn.
   ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.
   iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le.
   iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Ceisiadau am arian:**
   7.1. Ambiwlans Awyr Cymru
   7.2. Eisteddfod yr Urdd
   7.3. Tŷ Gobaith
   7.40 Elusen Cancr Plant
   Penderfynwyd anfon siec o **£50** gyda siec rhif **100368** i'r Urdd gan fod yr eisteddfod yn Sir Ddinbych eleni. Cynigwyd hun gan GBJ gydag ER yn eilio a phawb yn gytûn.
8. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau:**
   Oherwydd y pandemig dim llawer i adrodd yn ôl
   i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) sefyllfa ariannol yn weddol iachus.
   ii) Gerallt Jones (Pwyllgor Ganolfan) ddim wedi cyfarfod
   iii) Gwynfor Roberts (Foelas Cyf) ddim yn bresennol
   iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) dim adroddiad
   v) Gari Jones (Llywodraethwyr) cwricwlwm newydd ar y gwell.
9. **Penodi Swyddogion:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| a) | Cadeirydd | - | Gethin Pyrs |
| b) | Is-gadeirydd | - | Alun Owen |
| c) | Elusen Ysbyty Ifan | - | Edmund Rees |
| ch) | Pwyllgor y Ganolfan | - | Gerallt Jones |
| d) | Foelas Cyf | - | Gwynfor H Roberts |
| dd) | Un Llais Cymru | - | Edmund Rees |
| e) | Llywodraethwyr | - | Gari B Jones |

10. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth
11. **Unrhyw fater arall –** Dim

Arwyddwyd__________________________ Cadeirydd Dyddiad______________